



GWASANAETHAU RHEOLEIDDIO A THAI **CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CONWY**

AMODAU TRWYDDED A CHANLLAW AR GYFER BRIDWYR CŴN

Cynnwys

1. AMODAU CYFFREDINOL

- 1.1 Dangos Trwydded
- 1.2 Cymeradwyaeth yr Awdurdod

2. LLETY AC AMGYLCHEDD

- 2.1 Adeiladwaith
- 2.2 Maint y Llety
- 2.3 Gwely
- 2.4 Tymheredd a Gwres
- 2.5 Golau
- 2.6 Awyru
- 2.7 Glanweithdra
- 2.8 Rheoli Plâu
- 2.9 Cael Gwared ar Wastraff
- 2.10 Bwrw Cenau

3. DIET A MAETH

- 3.1 Bwyd a Diod
- 3.2 Paratoi Bwyd a Chyfleusterau Storio

4. YMDDYGIAD ARFEROL

- 4.1 Cyfleusterau Ymarfer Corff
- 4.2 Goruchwyllo
- 4.3 Cymhareb Staff / dwysedd stocio
- 4.4 Cynllun y Cytiau

5. IECHYD A LLES

- 5.1 Cofrestru gyda Milfeddyg
- 5.2 Meddyginiaeth
- 5.3 Afiechydon Heintus / Ymledol
- 5.4 Statws iechyd cŵn

- 5.5 Bridio
- 5.6 Cyfleusterau Arwahanu
- 5.7 Cit Cymorth Cyntaf
- 5.8 Diogelu rhag Tân
- 5.9 Diogelwch Offer Trydanol

6. CADW COFNODION

- 6.1 Adnabod Cŵn
- 6.2 Cŵn bach
- 6.3 Gwerthu Geist Bridio a Chŵn Gre
- 6.4 Cludo Cŵn

7. DEDDF LLES ANIFEILIAID 2006

- 7.1 Cyfleusterau cŵn bach
- 7.2 Arddangos Patrymau Ymddygiad Arferol
- 7.3 Cymdeithasu cŵn bach
- 7.4 Bridio cyfrifol
- 7.5 Strategaeth ar gyfer ymddeol geist bridio a chŵn gre

8. CANLLAWIAU ERAILL

- 8.1 Deddfwriaeth Gyfredol Berthnasol Arall

MATERION ERAILL YN YMWNEUD Â GWEITHREDU SEFYDLIAD TRWYDDEDIG

- A – Trefn Apeliadau
- B – Canllaw Rhagofalon Tân
- C – Iechyd a Diogelwch

ATODLENNI ATODOL

- Atodlen 1 – Llyfr Log Geist Bridio
- Atodlen 2 – Llyfr Log Cŵn Gre
- Atodlen 3 – Cerdyn Adnabod Cŵn Bach

Amod y Drwydded	Canllaw
<p>1.1 Dangos Trwydded</p> <p>a. Rhaid dangos copi o'r drwydded a'i hamodau cysylltiedig yn addas i'r cyhoedd mewn lle amlwg yn y sefydliad bridio.</p>	

2. LLETY AC AMGYLCHEDD

Rhaid cadw cŵn mewn llety sy'n addas o ran adeiladwaith, maint y llety, gwely, cyfleusterau ymarfer corff, tymheredd a gwres, golau, awyru, glanweithdra, a chael gwared ar wastraff. Rhaid i gyfleusterau bwrw cenau a chŵn bach fod ar gael.

Amod y Drwydded	Canllaw
<p>2.1 Adeiladwaith</p> <p>a. Rhaid i bob arwyneb mewnol a ddefnyddir yn adeiladwaith waliau, lloriau, palisau, drysau a fframiau drysau fod yn wydn, esmwyth ac yn anhydraidd ac yn hawdd i'w glanhau.</p> <p>b. Ni ddylid cael unrhyw rannau sy'n ymwthio allan nac ymyl garw a allai achosi anaf.</p> <p>c. Ni ddylid defnyddio pren yn fewnol yng ngwneuthuriad cytiau newydd a dylid dirwyn eu defnydd i ben mewn cytiau presennol dros amserlen a gytunir arni.</p> <p>d. Pan eu bod wedi'u golchi, ni ddylai ardaloedd (gan gynnwys lloriau pob cwt, ardaloedd ymarfer corff, coridorau a cheginau) fod yn agored i groniadau a dylai fod modd eu sychu yn rhwydd.</p> <p>e. Dylai draenio fod yn addas ac yn ddigonol i hwyluso'r</p>	<p>Dylai cŵn fedru rheoli eu golygfa nhw o gŵn mewn cytiau eraill. Gellir cyflawni hyn, er enghraifft (1) mewn cwt agored gydag ardal y gall cŵn symud iddi i osgoi cyswllt gweledol gyda chŵn eraill a (2) mewn cwt gyda golygfa gyfyngedig drwy gael ardal uwch e.e. plattform, i alluogi cyswllt gweledol.</p> <p>Nid yw pren yn cael ei ystyried yn ddeunydd addas a glân ar gyfer cytiau cŵn modern a phan fod angen disodli pren a ddefnyddir mewn cytiau presennol, dylid ei ddisodli â deunydd esmwyth anhydraidd gwahanol fel dur galfanedig.</p> <p>Dylai fod gan grŵp neu bâr o gŵn guddfannau, plattfformau, gwllâu, teganau etc. digonol i osgoi cystadleuaeth a monopoleiddio yn y cwt.</p> <p>Dylid dylunio cytiau cŵn ac adeiladau yn y fath fodd fel eu bod</p>

uchod.

- f. Rhaid i waliau palis rhwng ardaloedd cysgu cyfagos fod o wneuthuriad cadarn i roi preifatrwydd i gŵn unigol.
- g. Rhaid i ddrysau cytiau fod yn ddigon cryf i wrthsefyll gwrthdrawiad a chrafu, a dylai fod modd eu diogelu'n effeithiol.
- h. Lle defnyddir bariau a fframiau metel rhaid i'w maint fod yn addas i atal cŵn rhag dianc na chael eu dal ynddynt.
- i. Lle defnyddir ymylau metel, ni ddylai olygu bod risg y bydd y ci yn dioddef anaf.

yn lleihau sŵn. Dylid rhoi ystyriaeth ddigonol i sensitifrwydd cŵn i sŵn amledd uchel a'i ymgorffori yn y dyluniad lle bod angen. Dylai dyluniad y cwt ci sicrhau fod mynediad parhaus gan bob ci i fan gorffwys cyfforddus, sych, di-ddrafft, glân a distaw.

Dylai'r dyluniad ystyried cyfeiriad daearyddol e.e. mae'n bosibl y bydd yn anoddach gwresogi cytiau cŵn sy'n wynebu tua'r gogledd. Bydd gosod cwt i wynebu'r cyfeiriad cywir yn caniatáu defnydd llawn o oleuni naturiol.

Dylid cynnal adeiladau, llwybrau, gerddi ac ardaloedd ymarfer corff yn dda a dylent fod mewn cyflwr da, glân, diogel.

Dylai llawr pob cwt ac ardal ymarfer corff cysylltiedig gynnig gafael digonol er mwyn i'r adeilad gerdded neu redeg heb y perygl o lithro.

Dylai dyluniad y cwt hefyd atal y risg o ddianc.

2.2 Maint y Llety

- a. Dyma'r gofynion isafswm o ran maint ar gyfer:

Cŵn Bach o Faint

Nifer o gŵn	Mynediad rhydd i ymarfer corff	Mynediad cyfyngedig i ymarfer corff
1	2.5 m sg.	4.5 m sg.
2	2.5 m sg.	4.5 m sg.
3	4.5 m sg.	6.5 m sg.
4	6.0m sg.	8.5 m sg.

Mae mynediad rhydd i ymarfer corff yn golygu bod gan y cŵn fynediad digyfngiad i ardal ymarfer corff.

Mae mynediad cyfyngedig i ymarfer corff yn golygu bod mynediad y cŵn i'r ardal ymarfer corff wedi'i gyfyngu.

Dylai'r cwt fod yn ddigon mawr i ganiatáu pob ci i fedru cerdded, troi yn yr unfan ac ysgwyd eu cynffonau heb gyffwrdd ochr y cwt, i chwarae, i sefyll ar eu coesau ôl a gorwedd i lawr heb gyffwrdd ag unigolyn arall.

Dylid darparu dwbl y lwfans gofod i eist gyda thorllwyth.

Mae'r diffiniad a defnyddir ar gyfer cŵn bach, canolig a mawr i'w cael ar wefan y Kennel Club. www.thekennelclub.org.uk

Cŵn Maint Canolig

Nifer o gŵn	Mynediad rhydd i ymarfer corff	Mynediad cyfyngedig i ymarfer corff
1	2.5 m sg.	4.5 m sg.
2	4.5 m sg.	6.5 m sg.
3	6.0 m sg.	8.5 m sg.

Cŵn Mawr

Nifer o gŵn	Mynediad rhydd i ymarfer corff	Mynediad cyfyngedig i ymarfer corff
1	4.5 m sg.	6.5 m sg.
2	6.0 m sg.	8.5 m sg.

e.e. Bach: - Ci Smwt, Bichon Frise
Canolig: - Sbaniel, Corgi
Mawr:- Ci Blaidd, Doberman

2.3 Gwely

- Rhaid darparu gwely neu offer addas sy'n caniatáu'r ci i fod yn gyfforddus.
- Dylai fod yn bosibl ei lanhau'n ddigonol a'i ddiheintio a rhaid iddo fod wedi'i osod mewn man lle nad oes drafft.
- Rhaid i bob deunydd gwely a ddefnyddir fod yn lân, atal lli ac yn sych.
- Rhaid i wely ci fod o wneuthuriad gwydn anhydraidd a bod o faint addas ar gyfer y brîd o gŵn sy'n cael eu cadw.
- Rhaid i bob ci gael mynediad i wely unigol.

Y diffiniad o wely cŵn yw sail gyda thri neu bedair o waliau ochr (3D) gyda'r opsiwn o gynnwys to.

Esiamlau o ddeunydd gwely addas yw deunyddiau ffabrig neu gnu (y gellir eu golchi), papur wedi'i falu a gwellt ffres a glân.

D.S. Ni ystyrir fod matiau rwber yn unig yn addas.

2.4 Tymheredd a Gwres

- Rhaid insiwleiddio manau cytau cŵn er mwyn atal tymheredd eithafol.

Oherwydd bod gan gŵn bach reolaeth tymheredd cyfyngedig dros ychydig ddyddiau cynnar eu bywydau, dylid darparu gwres lleol ychwanegol o fewn manau caeedig ar gyfer bwrw cenau.

Dylai ffynhonnell y gwres orchuddio arwynebedd digon mawr ar

<ul style="list-style-type: none"> b. Rhaid i gyfleusterau gwresogi ac oeri fod ar gael yn y cwt a'u defnyddio yn ôl gofynion y cŵn a'r cŵn bach unigol. c. Dylai fod rhyw ran o'r lle cysgu lle gall y ci fwynhau tymheredd isafswm o 10°C ac uchafswm tymheredd o 26°C. d. Yn y cytiau arwahanu rhaid cael dull o gynnal y tymheredd ar lefel addas ar gyfer cyflwr y ci, ac yn dibynnu ar gyngor y milfeddyg. Er hynny, ni chaniateir i wres yn yr ardal arwahanu fynd dros 26°C neu'n is na 13°C. e. Rhaid darparu thermomedr 'isafswm – uchafswm' ar bob bloc o gytiau a phob uned arwahanu. f. Rhaid i'r sawl sydd â thrwydded sicrhau fod pob ffynhonnell wres yn ddiogel ac yn cydymffurfio â gofynion rheoleiddio ar gyfer yr anifeiliaid a'r bobl sy'n gweithio yno. 	<p>gyfer y dorllwyth gyfan.</p> <p>Nid oes modd i ardaloedd awyr agored a ddarperir i anifeiliaid gael ymarfer corff gynnig rheolaeth tymheredd caeth. Ni ddylid cyfyngu anifeiliaid i ardaloedd o'r fath dan amgylchiadau hinsawdd a allai beri gofid iddynt.</p> <p>Dylai'r deunyddiau a ddefnyddir ar y tu allan i'r cytiau gynnig sicrwydd digonol yn erbyn amrywiadau tymheredd drwy gydol y flwyddyn.</p> <p>Er mwyn cynnal y tymheredd yn ôl y gofyn, efallai y bydd ffynonellau gwres unigol i gŵn yn ddigonol. Mewn rhai amgylchiadau bydd gofyn am wres cefndirol ychwanegol hefyd.</p> <p>Dylai dyfeisiau a ddefnyddir i wresogi ac oeri fod yn ddiogel ac ni ddylent beri risg o losgi neu drydanu'r cŵn. Ni ddylid defnyddio cyfarpar fflam agored a dylid dilyn cyfarwyddiadau'r gwneuthurwr.</p> <p>Disgwylir y bydd deiliaid trwyddedau sy'n cadw eu cŵn ac yn magu eu cŵn bach yn eu cartref (bridwyr domestig) yn cydymffurfio â gofynion rheoleiddio ar gyfer ffynonellau a chyfarpar gwres.</p>
<p>2.5 Golau</p> <ul style="list-style-type: none"> a. Rhaid darparu golau mewn manau ymarfer corff a chysgu fel bod modd gweld pob rhan yn glir. Dylai hwn fod yn olau naturiol lle bo hynny'n ymarferol. b. Rhaid darparu golau atodol digonol drwy gydol y sefydliad. c. Dylid diffodd goleuadau dros nos er mwyn caniatáu patrymau cysgu cywir. d. Rhaid gosod gorchuddion plastig ar bob golau artiffisial i 	<p>Oherwydd eu natur gosodir lampau gwres ar lefel isel ac ni ellir gosod gorchuddion plastig arnynt ond dylent gynnwys rhwyllau metel i atal cŵn rhag dod i gyswllt uniongyrchol â bylbiau poeth.</p> <p>Mae llawer mwy o siawns y bydd lampau gwres yn cael eu taro a bylbiau'n cael eu torri pan eu bod wedi eu gosod ar lefelau isel ond mae bylbiau ar gael i'w prynu na ellir eu torri yn ystod defnydd arferol. Dylid dod o hyd i'r bylbiau hyn a'u defnyddio lle bo hynny'n bosibl.</p>

osgoi anafiadau posibl i gŵn yn sgil gwydr wedi torri.	
<p>2.6 Awyru</p> <p>a. Rhaid darparu system awyru ym mhob ardal dan do heb greu drafft gormodol, lleol, yn yr ardal gysgu. Dylai fedru rheoleiddio newid tymheredd.</p>	<p>Dylai awyru yn y llety dan do i'r holl gŵn ddarparu digon o awyr iach o ansawdd priodol a chadw lefelau a gwasgariad arogleuon, nwyon gwenwynig, llwch a chyfryngau heintus o unrhyw fath yn isel, a rhyddhau gwres a lleithder gormodol</p> <p>Dylid dylunio'r system awyru fel ei bod yn atal drafftiau a sŵn niweidiol.</p>
<p>2.7 Glanweithdra</p> <p>a. Rhaid cadw pob cwt, coridor, ardaloedd cyffredin, ceginau ac ati, yn lân ac ni ddylai baw na llwch gasglu yn y manau hyn er mwyn cynnal rheolaeth clefydau a bod y cŵn yn gyfforddus.</p> <p>b. Rhaid glanhau pob cwt ci a ddefnyddir unwaith y dydd.</p> <p>c. Rhaid cael gwared ar unrhyw garthion a deunydd sydd wedi'u baeddu o ardaloedd a ddefnyddir gan y cŵn o leiaf unwaith y dydd ac yn amlach os oes angen.</p> <p>d. Dylid cyflwyno amserlen lanhau a'i harddangos gan amlygu dyletswyddau glanhau a diheintio dyddiol, wythnosol a misol a ddylai ymgorffori fformweiddiad effeithiol a gymeradwywyd sy'n effeithiol yn erbyn micro organebau sy'n gyfrifol am afiechydon cynaidd a rhaid eu gosod yn y cynllun iechyd.</p>	<p>Ceir rhestr o ddiheintyddion ar:</p> <p>http://disinfectants.defra.gov.uk/</p>
<p>2.8 Rheoli Plâu</p> <p>a. Rhaid cyflwyno mesurau i leihau'r risgiau gan lygod, pryfaid neu unrhyw blâu eraill yn y sefydliad bridio. Rhaid delio â phlâu yn ddigonol heb oedi er mwyn cael gwared yn llwyr â'r pla.</p>	<p>Dylid dilyn canllaw'r gwneuthurwr wrth ddefnyddio cynhyrchion rheoli er mwyn lleihau'r risg i gŵn.</p>

<p>2.9 Cael Gwared ar Wastraff</p> <ul style="list-style-type: none"> a. Rhaid i'r sefydliad fod wedi'i gysylltu â'r brif garthffos neu system leol waredu carthion wedi'i chymeradwyo. b. Rhaid darparu cyfleusterau ar gyfer derbyn, storio a chael gwared ar wastraff yn y dull cywir. c. Dylid cymryd gofal penodol i wahanu gwastraff clinigol sy'n codi wrth drin a thrafod cŵn gyda chlefydau heintus. d. Dylid cytuno gyda'r Awdurdod Trwyddedu ar gyfleusterau ar gyfer gwaredu gwastraff anifeiliaid. 	<p>Dylai deiliad y drwydded wirio gydag Asiantaeth yr Amgylchedd am y canllaw cyfredol ynglŷn â'r dull addas o gael gwared ar wastraff.</p>
<p>2.10 Cyfleusterau Bwrw Cenau</p> <ul style="list-style-type: none"> a. Dylid darparu ardal neu gwt dynodedig i bob gast cyn bwrw cenau, gyda bocs / gwely addas ar gyfer bwrw cenau. b. Rhaid i gyfleusterau gwresogi fod yn ddigonol, diogel a sicr a dylai bod modd addasu'r tymereddau, fel eu bod yn addas ar gyfer y cŵn bach a'r ast. c. Rhaid darparu ardal lle gall gast orffwys oddi wrth ei chŵn bach. 	<p>Ar y cyfan dylid cartrefu geist gyda chŵn eraill mewn pâr neu grŵp, ond dylid eu cartrefu yn unigol am rai dyddiau cyn bwrw cenau. Fodd bynnag, dylent barhau i fedru gweld, clywed ac aroglu geist eraill tebyg a chyswllt dyddiol gyda phobl.</p> <p>Dylai'r ardal/cwt bwrw cenau ddarparu ar gyfer y nifer llawn o gŵn bach gan ystyried maint y brid a maint y dorllwyth. I osgoi gwasgu, gall bariau atal gwasgu fod yn ddefnyddiol. O oddeutu 3 diwrnod ar ôl esgoriad, dylid rhoi cyfnodau byr o ymarfer corff i eist oddi wrth y dorllwyth.</p> <p>Dylid archwilio geist sydd ar fin bwrw cenau yn rheolaidd. Pan eu bod yn rhoi geni, dylid monitro geist yn agos ac os dangosir unrhyw arwyddion o anhawster, dylid cysylltu â milfeddyg ar frys. Dylai manylion cyswllt cymorth milfeddyg fod o fewn cyrraedd hawdd.</p>

3. DIET A MAETH

Rhaid i bob ci gael digon o fwyd a diod bob amser sy'n addas i'r brid, oed a'r gwahanol ofynion maeth. Rhaid i gyfleusterau paratoi bwyd digonol fod ar gael.

Amod y Drwydded	Canllaw
<p>3.1 Bwyd a Diod</p> <ul style="list-style-type: none">a. Rhaid cyflenwi diet addas i bob ci yn ôl ei fath, oed a'i frîd.b. Rhaid i ddŵr ffres, glân fod ar gael i'r cŵn bob amser, a dylid ei newid bob dydd.c. Rhaid darparu llestri bwyta ac yfed gyda dyluniad sy'n atal gollyngiadau gymaint â phosibl.d. Mae'n rhaid ei bod yn bosibl glanhau, diheintio a sterileiddio llestri a rhaid eu cynnal mewn cyflwr glân.	<p>Dylai fod gan bob ci gan gynnwys cŵn bach diddwyn fynediad at lestri bwydo unigol. Rhaid i bob ci dderbyn diet sy'n diwallu eu gofynion maeth ac yn gweddu i'w hoedran, brid, statws atgenhedlu, sgôr cyflwr corff a lefel gweithgaredd.</p> <p>Dylid gofyn am farn milfeddyg os nad yw cŵn bach yn magu pwysau, neu'n colli pwysau.</p> <p>Gweler Cod Ymarfer Llywodraeth Cymru</p>
<p>3.2 Paratoi Bwyd a Chyfleusterau Storio</p> <ul style="list-style-type: none">a. Rhaid darparu cyfleusterau addas, wedi'u hadeiladu a'u cynnal a'u cadw mewn modd glân ar gyfer storio a pharatoi'r bwyd ar gyfer y cŵn.b. Lle bod cigoedd ffres ac wedi'u coginio yn cael eu storio, rhaid darparu cyfleusterau oergell. Rhaid osgoi halogi bwyd.c. Rhaid i sinc a dŵr poeth ac oer fod ar gael er mwyn glanhau cyfarpar cegin a llestri bwyta ac yfed.d. Rhaid darparu cynwysyddion i storio bwyd a byddant wedi'u hadeiladu a'u cynnal mewn cyflwr da fel eu bod yn atal pryfed a phlâu eraill.	

4. YMDDYGIAD ARFEROL

Mae'n rhaid i gŵn allu dangos patrymau ymddygiad arferol bob amser. Mae'n rhaid iddynt gael cyfle i fwynhau ymarfer corff a chael eu goruchwyllo'n ddigonol. O ganlyniad rhaid i berchnogion gydymffurfio â chymarebau staffio a gymeradwywyd. Bydd cŵn yn cael eu cadw mewn cynllun cytiau gyda chyfleusterau i wella a chyfoethogi eu hamgylchedd a galluogi cŵn bach i gymdeithasoli.

Amod y drwydded	Canllaw
<p>4.1 Ymarfer Corff</p> <ul style="list-style-type: none">a. Rhaid i gŵn dderbyn ymarfer corff digonol ar gyfer eu hanghenion unigol er mwyn sicrhau eu lles corfforol a meddyliol.b. Lle nad oes gan gŵn ardal benodol ar gyfer ymarfer corff neu fynediad rhydd i ardal ymarfer corff, rhaid darparu rhaglen ymarfer corff ysgrifenedig wedi'i chymeradwyo gan yr awdurdod lleol.	<p>Dylai cŵn gael mynediad dyddiol i ardal ymarfer corff o faint rhesymol. Dylid eu diogelu'n ddigonol rhag tywydd garw drwy gael ardal wedi'i chysgodi. Dylid hefyd gofalu a sicrhau bod y grwpiau o gŵn yn gweithio fel unedau cymdeithasu.</p> <p>Dylid sicrhau gofyniad amser atodol o isafswm o dri chyfnod o ½ awr o gyswllt a rhyngweithiad dynol y dydd (gan gynnwys chwarae rhyngweithiol gyda theganau) gyda'r cŵn er mwyn sicrhau bod y cŵn yn cael ymarfer corff corfforol a meddyliol.</p>
<p>4.2 Goruchwyliaeth</p> <ul style="list-style-type: none">a. Os yw deiliad y drwydded yn absennol am gyfnod sylweddol rhaid i'r dylai unigolyn addas a chymwys sy'n o leiaf 16 mlwydd oed fod yn gyfrifol am oruchwyllo'r eiddo.b. Dylai fod gan y rhai hynny sy'n goruchwyllo, wybodaeth drylwyr a manwl o'r amodau trwyddedu a chydymffurfio â nhw bob amser.c. Dylai deiliad y drwydded fyw yn agos at yr eiddo trwyddedig, er mwyn iddynt allu bod yn bresennol yn brydlon bob amser.d. Dylid ymweld â Chŵn yn rheolaidd, yn ôl yr angen i sicrhau eu hiechyd, diogelwch a'u lles ac atal unrhyw	<p>Mae angen i unrhyw un sy'n goruchwyllo'r cŵn gael gwybodaeth a phrofiad digonol i allu ymdrin â'r cŵn yn gywir ac yn ddiogel. Mae'n rhaid iddynt allu adnabod os yw ymddygiad ci yn awgrymu bod problem a gweithredu'n briodol.</p> <p>Dylai fod gan bob bridwr a staff fynediad at God Ymarfer ar Les Cŵn a bod yn gyfarwydd ag ef a phob deddfwriaeth berthnasol arall.</p> <p>Dylai fod ganddynt wybodaeth ymarferol gadarn ynglŷn â bridio cŵn a bod yn ymwybodol o arfer da a nodwedd(ion) y brid(iau)</p>

<p>ddioddef diangen.</p> <p>e. Dylai fod egwyliau rheolaidd am isafswm o 3 gwaith y dydd.</p>	<p>yn eu sefydliad.</p>
<p>4.3 Cymhareb Staff / Dwysedd Stocio</p> <p>a. Nodir y nifer uchaf o gŵn y gellir eu cadw ar unrhyw un adeg yn y sefydliad ar y drwydded ac ni ellir cadw rhagor o gŵn na hynny.</p> <p>b. Ni ddylai'r nifer o gŵn, dan unrhyw amgylchiadau, fod yn uwch na 30 am bob gweithredwr LLAWN amser a 15 ar gyfer pob gweithredwr RHAN amser a gyflogir yn yr eiddo.</p> <p>c. Rhaid cwtogi ar y nifer o gŵn a ganiateir os oes methiant i gydymffurfio â gofynion eraill y drwydded. Y diffiniad o 'gi' yw unrhyw anifail cynaidd dros 6 mis oed gan gynnwys ci gre, bridio, wedi ymddeol ac iau.</p>	<p>Rhoddir ystyriaeth gan yr awdurdod trwyddedu i'r sefydliad yn ei gyfanrwydd; gan gynnwys llety sydd ar gael, cyfleusterau ymarfer corff, rhaglenni iechyd a lles a lefel o gydymffurfiaid parhaus â'r drwydded.</p> <p>Lle nad ydyw'r awdurdodau trwyddedu yn fodlon gyda gallu deiliad bwriedig y drwydded neu ddeiliad presennol y drwydded i gydymffurfio'n llawn gydag amodau'r drwydded, dylent leihau ar y nifer o gŵn y gall y sefydliad eu cadw.</p> <p>Efallai y rhoddir tystiolaeth i brofi methiant i ateb amodau'r drwydded e.e. diffyg ymarfer corff i gŵn a glanweithdra gwael.</p> <p>Dylai unrhyw weithredwr (llawn neu ran amser) fod wedi'i hyfforddi'n drylwyr ac yn fedrus. Ceir hyfforddiant addas ar wefan y Pet Care Trade Association.</p> <p>Gweithredwr llawn amser yw rhywun sy'n gweithio am isafswm o 30 awr yr wythnos ac mae gweithredwr rhan amser yn gweithio am isafswm o 15 awr.</p>
<p>4.4 Cynllun y Cytiau</p> <p>a. Rhaid dylunio amgylchedd y cytiau i sicrhau diogelwch, lles a budd y preswylwyr.</p>	<p>Dylid cadw pob ci yng nghwmni eraill oni bai fod angen eu cadw ar wahân er budd diogelwch a lles unigol y ci.</p> <p>Dylid darparu ardal uwch ym mhob cwt lle gall cŵn fwynhau golygfa o uchder o'r ardal o'u hamgylch. Dylai dyluniad y cwt ganiatáu i bob ci sy'n preswyllo yno i ddewis a ydynt yn gallu gweld preswlydd arall o gwt cyfagos neu'r cwt gyferbyn ai peidio.</p>

	<p>Dylai'r dyluniad fod mor gymhleth ac ysgogol ag y mae'r gofod a'r angen i sicrhau glendid yn caniatáu. Y safon isafswm ar gyfer cynllun cwt yw darparu ardal uwch, ei fod yn ddigon mawr a chadarn ar gyfer preswlydd y cwt ac mewn safle gorweddol.</p> <p>Oni bai fod y ci unigol yn anaddas yn emosiynol neu'n gorfforol, dylid cartrefu pob ci mewn grwpiau (isafswm o 2 gi).</p>
--	--

5. IECHYD A LLES

Rhaid cymryd camau rhesymol i atal a rheoli clefydau heintus neu ymledol rhag lledaenu ymysg anifeiliaid. Mae'n hanfodol cofrestru gyda milfeddyg. Mae'n ofynnol i gael cynlluniau iechyd priodol, i ddefnyddio meddyginiaethau trwyddedig yn ôl y galw a hyrwyddo statws iechyd y cŵn drwy fridio cywir. Mae cyfleusterau arwahanu, offer cymorth cyntaf a diogelwch tân yn hanfodol.

Amod y Drwydded	Canllaw
<p>5.1 Cofrestru gyda Milfeddyg</p> <p>a. Rhaid i bob sefydliad bridio gofrestru gyda Milfeddyg a sicrhau bod manylion llawn ar gael i'r Awdurdod Trwyddedu.</p>	<p>Gellir cael cyfeiriadau milfeddygon gan Goleg Brenhinol y Milfeddygon: http://www.rcvs.org.uk/FindAVet</p>
<p>5.2 Meddyginiaethau</p> <p>a. Mae'n rhaid bod gan bob meddyginiaeth a ddefnyddir Awdurdod Marchnata cyfredol i'w gwerthu yn y DU.</p> <p>b. Rhaid i bob meddyginiaeth a ddefnyddir fod o fewn eu dyddiadau terfyn, a chael eu defnyddio yn ôl y cyfarwyddiadau.</p> <p>c. Rhaid iddynt gael eu storio mewn cabinet addas diogel.</p> <p>d. Rhaid eu diogelu rhag golau ac eithafion tymheredd.</p>	<p>Dylai Meddyginiaeth Presgripsiwn yn Unig – Milfeddygol (POM-V) ond gael eu defnyddio ar gyfer yr anifeiliaid penodol y cawsant eu rhoi fel presgripsiwn iddynt. Rhaid dilyn y cyfarwyddiadau milfeddygol penodol.</p> <p>Rhaid i Feddyginiaethau Anifeiliaid Nad ydynt yn Fwyd – Milfeddygon, Fferyllwyr ac Unigolion Gyda Chymwysterau Addas (NFAM-VPS) a meddyginiaeth Milfeddygol Awdurdodedig – Rhestr Gwerthiant Cyffredinol (AVM-GSL) gael eu defnyddio</p>

	<p>yn unol â chanllawiau'r gwneuthurwr.</p> <p>Caniateir meddyginiaeth homeopathig gyda chymeradwyaeth milfeddyg</p>
<p>5.3 Afiechydon Heintus / Ymledol yn yr eiddo</p> <p>a. Rhaid diogelu pob ci yn ddigonol rhag afiechydon a pharasitiaid heintus ac ymledol fel y cânt eu pennu gan eich milfeddyg.</p> <p>b. Rhaid cadw cofnodion wedi'u diweddarau ar gyfer pob ci yn rhoi manylion y triniaethau a'r brechiadau maent wedi'u derbyn.</p>	<p>Dylid cymryd rhagofalon digonol i atal a rheoli lledaeniad afiechydon a pharasitiaid heintus ac ymledol ymysg cŵn, a milheintiau ymysg cŵn, staff ac ymwelwyr.</p> <p>Dylid cadw cofnodion o bob trefn frechu a dilyngyru.</p>
<p>5.4 Statws lechyd cŵn</p> <p>a. Mae'n rhaid cynnal archwiliad corfforol dyddiol ar bob anifail i wirio am unrhyw arwyddion o salwch, anaf neu flinder.</p> <p>b. Rhaid i gŵn gre a geist bridio fod yn hollach yn gorfforol ac o ran ymddygiad.</p> <p>c. Mae'n bosibl y bydd rhaid i filfeddyg trwyddedig wirio unrhyw stoc bridio sy'n ymddangos i'r arolygydd trwyddedu eu bod yn arddangos nodweddion etifeddol neu ymddygiad nad ydynt yn iach, i sicrhau eu bod yn hollach.</p> <p>d. Dylid gofyn am gyngor gan filfeddyg ar unwaith lle bod ci yn dangos arwyddion o afiechyd, anaf, salwch neu anhwylder ymddygiad a'i gofnodi yn llyfr log y ci a fydd ar gael i brynwyr posibl.</p> <p>e.</p>	<p>Nid yw stoci bridio sy'n dangos arwyddion o ofn neu bryder fel arfer yn rhieni da.</p> <p>Dylai cŵn bach fod yn gynnyrch rhieni iach, cymdeithasol a chymwys yn amgylcheddol.</p>

<p>5.5 Bridio</p> <ul style="list-style-type: none"> a. Ni ddylid paru geist bridio os ydynt yn iau na blwydd oed. b. Ni ddylai gast fridio rhoi genedigaeth i ragor na chwe thorllwyth dros eu hoes. c. Ni ddylai geist bridio rhoi genedigaeth i ragor nac un dorllwyth o gŵn bach mewn cyfnod o ddeuddeg mis. 	
<p>5.6 Cyfleusterau Arwahanu</p> <ul style="list-style-type: none"> a. Rhaid i gyfleusterau arwahanu gydymffurfio ag amodau eraill y drwydded, ond mae'n rhaid iddynt fod ar wahân yn gorfforol. Rhaid i'r cyfleusterau arwahanu hyn fod o leiaf 5 metr i ffwrdd o gytiau eraill. b. Rhaid darparu cyfleusterau digonol gael i atal clefyd heintus rhag lledaenu rhwng cŵn wedi'u harwahanu a'r cŵn eraill. c. Rhaid gweithredu mesurau bioddiogelwch a rhaid i'r holl staff eu deall. 	<p>Dylid cofnodi a dilyn cyngor milfeddygol am arwahanu cŵn gyda chlefydau a allai fod yn heintus ar unwaith.</p> <p>Dylai trefnau a chyfleusterau fod ar gael i ganiatáu gosod newydd ddyfodiad mewn cwarantîn, a dylent gael eu llunio mewn ymgynghoriad â milfeddyg. Dylid gofyn am gyngor milfeddyg pan fod newydd ddyfodiaid yn dangos arwyddion o afiechyd cyn iddynt gael eu cymysgu gyda chŵn eraill.</p> <p>Wrth arwahanu anifeiliaid, mae angen sicrhau y gwneir hynny'n effeithiol a bydd disgwyl cael tystiolaeth o unrhyw fewnbwn milfeddygol.</p>
<p>5.7 Cit Cymorth Cyntaf</p> <ul style="list-style-type: none"> a. Rhaid i git cymorth cyntaf gyda stoc lawn sy'n addas i'w ddefnyddio ar gŵn a chŵn bach fod ar gael ac o fewn cyrraedd yn yr eiddo. 	<p>Dylai cit cymorth cyntaf gynnwys y canlynol: Detholiad o rwymynnau:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Gorchudd briw nad yw'n glynu • Rhwymynnau cynnal • Rhwymynnau gorchuddio • Gwlân cotwm • Sisyrnau • Plicwyr • Torsh

	<ul style="list-style-type: none"> • Penffrwyn(au) o feintiau addas <p>Rhif ffôn y Milfeddyg gan gynnwys manylion tu allan i oriau gwaith arferol.</p> <p>Dylai'r meddyginiaethau sydd ar gael y dylid eu storio yn y cabinet meddyginiaeth gynnwys: Eli briwiau a Hylif Antiseptig.</p>
<p>5.8 Diogelu rhag Tân</p> <ol style="list-style-type: none"> Rhaid cael cynllun argyfwng tân a gadael yr adeilad a rhybudd tân gweithredol, a rhaid i'r holl staff fod yn ymwybodol ohono. Rhaid gosod hwn mewn man lle byddai'r holl staff yn ei weld. Rhaid cael digon o ffyrdd o gynnau'r larwm mewn achos tân neu unrhyw argyfwng arall. Rhaid cynnal offer diffodd tân a synwryddion yn gywir ac mae angen rhoi gwasanaeth i ddiffoddyddion tân neu gael rhai newydd yn ôl yr angen. Dylid cynnal pob gosodiad a chyfarpar trydanol mewn cyflwr diogel. Mae'n rhaid cael system torri cylched cerrynt gweddillol ar holl flociau'r cytiau. Ni ddylid lleoli offer gwresogi mewn lleoliad neu ddull lle mae modd iddynt beri risg o dân neu risg i gŵn. Rhaid cymryd rhagofalon i atal unrhyw ddeunyddiau rhag casglu a allai beri risg o dân. 	<p>Rhaid i'r drefn hon gynnwys cyfarwyddiadau ar gyfer delio ag achosion lle mae'n rhaid gwagio cŵn o'r adeilad.</p> <p>I gynorthwyo i gydymffurfio â'r rheoliadau hyn gweler y manylion sydd ynghlwm yn Atodlen B.</p>
<p>5.9 Diogelwch Offer Trydanol</p> <ol style="list-style-type: none"> Mae'n rhaid i chi sicrhau fod pob system drydanol yn cael ei hadeiladu a'i chynnal yn ddigonol, er mwyn osgoi perygl, cyn belled ag sy'n ymarferol, yn unol â Rheoliadau Trydan yn y Gweithle 1989. 	<p>I gynorthwyo er mwyn cydymffurfio â'r rheoliadau, gweler Atodlen C sydd ynghlwm.</p>

6. CADW COFNODION

Rhaid cadw cofnodion cywir ac wedi'u diweddarau yn yr eiddo. Mae'n rhaid i'r rhain fod ar gael i Arolygwyr a Awdurdodwyd.

Amod y Drwydded	Canllaw
<p>6.1 Adnabod Cŵn</p> <ul style="list-style-type: none">a. Rhaid i ddeiliad y drwydded gadw rhestr o bob ci gre/gast, yn cynnwys enw'r ci, y brid a rhif microsglodynb. Rhaid i unigolyn gyda chymwysterau addas osod microsglodyn ar bob gast fridio a chi gre a'u gosod ar gofrestr genedlaethol gydnabyddedig.c. Rhaid llenwi llyfr log a gyflenwyd gan yr Awdurdod Trwyddedu a'i gadw ar gyfer geist bridio a chŵn gre. Y microsglodyn yw'r cyswllt rhwng y ci a'r llyfr log. <p><u>Atodlen 1 – Llyfr Log Geist Bridio</u></p> <ul style="list-style-type: none">d. Rhaid cadw'r llyfr log hwn, i gofnodi manylion gan gynnwys rhif microsglodyn, enw, dyddiad geni, brid, rhif cofrestru'r Kennel Club, a'r cyfeiriad lle caiff ei gadw a chofnod o'i statws iechyd. <p>Yn ogystal, rhaid i'r llyfr log ar gyfer geist bridio gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none">• canlyniadau unrhyw gynllun iechyd Cymdeithas Filfeddygol Prydain (BVA)/Kennel Club*;• canlyniadau unrhyw brofion sgrinio DNA a ddilyswyd sy'n briodol i'r brid *;• manylion pob torllwyth (manylion cychwynnol i'w gosod ar eu genedigaeth) fel sy'n ofynnol gan Reoliadau Cŵn Bridio (Cofnodion Trwyddedu) 1999* sydd hefyd yn cynnwys, dyddiad paru a manylion y tad, rhyw'r cŵn bach, dyddiad	<p>Gweler Atodlen 1 i gael esiampl o lyfr log Gast Fridio.</p> <p>Gweler Atodlen 2 i gael esiampl o lyfr log Ci Gre.</p>

<p>geni, disgrifiad pwysau a'r nifer llawn o gŵn bach yn y dorllwyth.</p> <p>*ar gael gan y Kennel Club</p> <p><u>Atodlen 2 – Llyfr Log y Ci Gre</u></p> <p>e. Rhaid cadw'r llyfr log hwn, gan gofnodi manylion y rhif microsglodyn, enw, dyddiad geni, brid, rhif cofrestru'r Kennel Club, y cyfeiriad lle caiff ei gadw a chofnod o'i statws iechyd.</p> <p>Yn ogystal, bydd y llyfr log ar gyfer cŵn gre hefyd yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • canlyniadau unrhyw gynllun iechyd BVA/Kennel Club; • manylion pob achos o baru; a • manylion pob gast y parwyd â hi. <p>f. Wedi i'r cŵn adael yr eiddo trwyddedig, rhaid cadw cofnodion am o leiaf 24 mis a rhaid iddynt fod ar gael os gofynnir gan swyddogion awdurdodedig.</p>	
<p>6.2 Cŵn bach</p> <p>a. Ni ddylid gwerthu unrhyw gi bach cyn ei fod yn 56 diwrnod oed.</p> <p>b. Rhaid gallu adnabod pob ci bach gyda microsglodyn cyn iddynt gael eu gwerthu neu eu cartrefu a dylid cyfeirio'r manylion i'r ast fridio.</p> <p>c. Rhaid cofrestru manylion y microsglodyn ar gronfa ddata gydnabyddedig.</p> <p>d. Rhaid i ficrosglodion gael eu cofrestru i'r bridwr cyn i'r ci bach symud oddi ar yr eiddo.</p> <p>e. Bydd cŵn bach yr ystyrir sydd yn rhy fach i gael microsglodyn ond yn cael ei eithrio drwy lythyr gan filfeddyg</p>	<p>Mae cerdyn adnabod ci bach yn cynnwys y manylion a ganlyn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Enw a chyfeiriad / manylion cyswllt y bridwr • Dyddiad geni a dyddiad gwerthu • Rhif microsglodyn y ci bach (os yw'n berthnasol) • Enw a rhif microsglodyn y ddau riant (gan gynnwys rhif cofrestru K.C. os yw'n berthnasol) • Manylion brechu • Manylion dilyngyru • Canllawiau ar ailgofrestru microsglodyn i'r perchennog newydd

<p><u>Atodlen 3 – Cerdyn Adnabod Ci Bach</u></p> <p>f. Rhaid cwblhau cerdyn Adnabod ci bach ar gyfer pob ci bach a gaiff ei fridio a rhoi copi i'r prynwr ar unrhyw werthiant.</p> <p>g. Rhaid i'r bridwr gadw'r copi gwreiddiol.</p> <p>h. Rhaid i'r cofnodion hefyd ddangos:</p> <ul style="list-style-type: none"> • manylion y gwerthiant, yn benodol y dyddiad gwerthu; • enw a chyfeiriad y sawl a gyflenwyd; • rhif y microsglodyn. <p>Rhaid cofnodi gwerthiant cŵn bach yn llyfr log y geist Bridio</p>	<p>D.S. rhaid i'r cardiau unigol fod gyda'r cŵn bach drwy bob cam o'u taith i'w cartref parhaol terfynol.</p> <p>Dylid darparu 'Pecyn Ci Bach' i brynwyr cŵn bach, a dylai gynnwys: - Y dogn o fwyd a fwydir ar hyn o bryd, manylion yswiriant (os darperir hyn), unrhyw gyngor / gwybodaeth benodol i'r brid a chyfeiriad ar fodolaeth y Cod Ymarfer ar gyfer Lles Cŵn (Cyhoeddiad y Llywodraeth).</p>
<p>6.3 Gwerthu Geist Bridio a Chŵn Gre</p> <p>a. Pan eu bod yn cael eu gwerthu ar gyfer bridio pellach, rhaid cyflenwi'r llyfr log gyda'r geist bridio sy'n cynnwys eu hanes bridio llawn.</p> <p>b. Rhaid cyflenwi'r llyfrau log gyda chŵn gre pan eu bod yn cael eu gwerthu ar gyfer bridio pellach.</p>	<p>Rhaid i lyfrau log gael eu cynnwys gyda geist bridio pan eu bod yn cael eu gwerthu i sefydliadau bridio i sicrhau nad yw'r nifer o dorllwythi a gynhyrchir yn uwch na'r nifer llawn o dorllwythi y gall gast eu cael. Ar hyn o bryd y nifer uchaf yw chwe thorllwyth heb fylchau o lai na blwyddyn rhyngddynt.</p>
<p>6.4 Cludo Cŵn</p> <p>a. Pan fod cŵn gre, geist bridio a chŵn bach yn cael eu cludo, rhaid i ddeiliaid trwyddedau sicrhau fod yr holl gamau priodol yn cael eu cymryd i sicrhau bod y cŵn yn derbyn bwyd, diod, deunydd gwely addas, a digon o ymarfer corff.</p> <p>b. Rhaid cydymffurfio'n llawn â deddfwriaeth Lles Anifeiliaid wrth eu Cludo.</p>	<p>Mae'r deddfwriaeth yn diffinio'r gofynion i sicrhau 'Lles Anifeiliaid wrth eu Cludo'. Gallwch ofyn i'ch arolygydd trwyddedu am fanylion y rheoliadau presennol. Dyma rai esiamplau; Caets(ys) cŵn wedi'u gosod yn ddiogel gydag awyru addas. Yn ogystal â'r gofyniad i ddal awdurdodiad Cludwyr.</p>

7. DEDDF LLES ANIFEILIAID 2006

Mae Adran 9 o'r Ddeddf uchod yn gosod dyletswydd gofal ar unigolyn sy'n gyfrifol am anifail. Mae'r Ddeddf yn datgan bod unigolyn yn cyflawni trosedd os nad ydynt yn cymryd camau rhesymol i sicrhau anghenion yr anifail hwnnw. Er mwyn sicrhau eich bod yn cydymffurfio â'r dyletswyddau hyn, mae'r Cyngor wedi rhoi manylion am ofynion penodol a chanllaw y mae'n rhaid i chi ei dilyn.

Lle ceir posibilrwydd bod Dyletswydd Gofal yn cael ei dorri o dan Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006, fe allai'r Cyngor ddewis cyflwyno Rhybudd Gwelliant i ddatrys y broblem.

Amod y Drwydded	Canllaw
7.1 Cyfleusterau Cŵn Bach a. Rhaid darparu ardal sy'n addas ar gyfer cymdeithasoli pob torllwyth.	Os ydynt mewn cytiau/siediau neu fathau eraill o adeiladau, dylid neilltuo ardal benodol i ddynwared cyfeiriadau amgylcheddol mewn amgylcheddau cartref.
7.2 Arddangos Patrymau Ymddygiad Arferol a. Rhaid rhoi'r cyfle i bob ci a gedwir yn y sefydliad gael rhyngweithio a chael ysgogiad dyddiol er mwyn mynegi ymddygiad arferol. b. Rhaid cyflenwi tystiolaeth o ddarparu neu wella a chyfoethogi bywyd i arolygydd yr awdurdod lleol.	Dylai amgylcheddau awyr agored, os ydynt yn cael eu darparu, fod mor gymhleth ag y mae ystyriaethau diogelwch a glendid yn caniatáu. Dylid adrefnu eitemau chwarae, lle bo modd, yn rheolaidd a'u cyfnewid rhwng manau rhedeg i wella newydd-deb ac ysgogiad. Dyma esiamplau o gyfoethogi amgylcheddol: ymarfer corff priodol, chwarae, a chyswllt digonol gyda phobl (paratoi, hyfforddi neu chwarae) a gweithgareddau dod o hyd i fwyd e.e. bwydwr i'w drysu neu ymarferion sborioni.
7.3 Cymdeithasoli Cŵn Bach a. Rhaid cymdeithasoli pob ci bach cyn eu gwerthu neu eu	Dylai cŵn bach fod yn gynnyrch rhieni cymdeithasol a chymwys yn amgylcheddol. Ymysg pethau eraill, dylai cynllun cymdeithasoli a drefnir

<p>cartrefu a rhaid trafod a chytuno ar y dull o gyflwyno hyn gydag arolygydd yr awdurdod lleol.</p>	<p>gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • trafod pob ci bach yn dyner, • cyflwyno sŵn lefel isel o 14 diwrnod ymlaen; • o 21 diwrnod ymlaen dylid cyflwyno amrywiaeth o gyswllt dynol dyddiol i'r anifail, chwarae gyda theganau addas, a threfnu'r chwarae i'w cadw i ffwrdd o'r fam. Lle bod bioddiogelwch yn caniatáu, dylai cŵn bach o dorllwythi eraill gymysgu mewn amgylchedd addas. Dylid cymryd gofal eich bod yn symud cŵn bach i'w trafod yn y fath fodd fel nad yw'n achosi gofid i'r fam. <p>Os defnyddir hyfforddiant, dylai fod yn seiliedig ar wobrwyo. Gwaherddir y defnydd o goleri sioc drydanol yng Nghymru.</p>
<p>7.4 Bridio Cyfrifol</p> <p>a. Ni ddylid bridio gydag unrhyw stoc fridio y profir sy'n dangos nodweddion etifeddol neu ymddygiad nad ydynt yn iach.</p> <p>b. Wrth fridio cŵn croesfrid yn fwriadol, dylai bridwyr ystyried cydnawsedd y bridiau o ran pa mor rhwydd yw bwrw cenau a chynhyrchu cŵn bach iach.</p>	<p>Dylai deiliaid trwyddedau fod yn gyfarwydd â'r profion sgrinio iechyd sydd ar gael i'r bridiau o'u dewis, mewn ymgynghoriad â'u Milfeddyg.</p> <p>Diffinnir croesfridiau fel epil unrhyw ddau neu fwy o fridiau cŵn cydnabyddedig.</p> <p>Dylid ystyried yn ofalus cyn bridio anifeiliaid sy'n perthyn yn agos.</p> <p>Rhai esiamplau o fridio agos yw paru rhwng brawd a chwaer, tad a merch, mam a mab, taid neu nain a wŷr/wyres neu hanner brawd neu chwaer.</p>
<p>7.5 Strategaeth ar gyfer ymddeol geist bridio a chŵn gre.</p> <p>a. Bydd yn rhaid parhau i gynnwys pob gast fridio a chi gre</p>	<p>Dylai bridwyr baratoi ar gyfer ymddeoliad eu cŵn bridio. Os yw ymddeol yn golygu ailgartrefu i amgylchedd cŵn domestig, dylai cŵn fod yn agored, yn ystod eu bywyd gweithiol, i raglen o</p>

<p>a ymddeolwyd sy'n cael eu cadw yn yr eiddo trwyddedig ar y drwydded.</p> <p>b. Mae'n rhaid bod gan fridwyr gynllun ar gyfer delio â chŵn sydd wedi ymddeol.</p>	<p>ysgogiadau a ddyluniwyd i gynnal eu cymdeithasoliad gyda phobl a'u gallu i ymdopi mewn amgylchedd domestig.</p>
---	--

8. GOFYNION ERAILL

Dylai deiliaid trwyddedau a staff fod yn gyfarwydd â deddfwriaeth a chanllawiau cyfredol perthnasol sy'n effeithio ar les staff a chŵn yn ogystal â sicrhau cydymffurfiad llawn.

Amod y Drwydded	Canllaw
<p>8.1 Deddfwriaeth a Chodau Ymarfer Cyfredol Perthnasol Eraill</p> <p>a. Rhaid i deiliaid trwyddedau a staff hefyd fod yn ymwybodol o ddeddfwriaeth Lles Anifeiliaid a Bridio Cŵn i alluogi cydymffurfiad llawn â'r amodau.</p>	<p>Rhestr o ddeddfwriaeth gyfredol berthnasol</p> <ul style="list-style-type: none"> ◆ Rheoliadau Tocio Cynffonau Cŵn Gwaith (Cymru) 2007 (SI 2007/1028 (W.95)). ◆ Deddf Cŵn Peryglus 1991 (fel y'i diwygiwyd) ◆ Deddf Bridio a Gwerthu Cŵn (Lles) 1999 ◆ Deddf Anifeiliaid Anwes 1951 ◆ Deddf Lles Anifeiliaid 2006 ◆ Cod Ymarfer ar gyfer Lles Cŵn – Llywodraeth Cynulliad Cymru ◆ Deddf Bridio Cŵn 1973 ◆ Gorchymyn Rheoli Cŵn 1992 ◆ Rheoliadau Bridio Cŵn (Cofnodion Trwyddedu) 1999 ◆ Rheoliadau Lles Anifeiliaid (Coleri Electronig) (Cymru) 2010 Rhif 943 (W. 97) ◆ Gorchymyn Lles Anifeiliaid (Cludiant) (Cymru) 2007

MATERION ERAILL YN YMWNEUD Â GWEITHREDU SEFYDLIAD TRWYDDEDIG

A. TREFN APELIO

Deddf Anifeiliaid Anwes 1951 - Adran 1 (4)

Caniateir i unrhyw un a dramgwyddir gan wrthodiad awdurdod lleol i roi trwydded o'r fath, neu gan unrhyw amod y mae trwydded o'r fath yn ddarostyngedig iddo, apelio i'r Llys Ynadon; a chaiff y Llys roi pa bynnag gyfarwyddiadau fel yr ystyria sy'n briodol ynghylch y drwydded neu ei hamodau fel y gwêl yn briodol.

B. CANLLAW RHAGOFALON TÂN

Rhoddir y wybodaeth ganlynol i'r sawl â thrwydded, er mwyn cydymffurfio â gofynion rhagofalon tân sydd wedi'u manylu yn amodau trwyddedu'r Cyngor, sy'n gofyn am gymryd camau priodol i ddiogelu anifeiliaid mewn achos tân neu unrhyw argyfwng arall.

Bwriad y canllaw yw sicrhau bod y ffyrdd o ddianc a rhagofalon tân cysylltiedig yn ddigonol i breswylwyr dynol. Dylid cadw mewn cof y gallai deddfwriaeth arall ymddrin â gofynion diogelwch tân i bobl.

Dylid ystyried y materion canlynol :

1. Mynediad at Gyflenwadau Diffodd Tân a Dŵr – Dylid darparu mynediad da at offer diffodd tân (lled o 3.7m ar y lleiaf) i bob hydrant a ffynonellau dŵr eraill a dylid darparu llawr caled. Dylid dangos bwrdd gydag enw'r eiddo yn glir ger y mynediad ffordd agosaf.
2. Ffyrdd o Ddianc – Dylid dylunio llwybrau dianc i anifeiliaid sy'n ffordd syth allan o'r adeiladau, gyda chyn lleied â phosibl o gymorth dynol. Dylid trefnu drysau llociau fel y gall anifeiliaid adael yn sydyn a dylid osgoi troadau llym, rhwystrau a rampiau ar y llwybrau dianc cyn belled â phosibl.
 - a) Dylai'r eiddo gael allanfeydd sydd â digon o led ac uchder i ganiatáu mynediad hawdd at yr anifeiliaid ar bob adeg.
 - b) Dylid gallu agor allanfeydd yn hawdd o'r tu mewn heb ddefnyddio goriad.
 - c) Os oes angen, dylid gwneud darpariaeth i gael gafaal ar ddeiliad goriad yn sydyn.

Mewn adeiladau sy'n fwy na 18 metr mewn lled neu le ceir nifer fawr o anifeiliaid, dylid darparu dwy allanfa a'u lleoli cyn belled i ffwrdd o'i gilydd â phosibl. Dylai'r pellter teithio gael ei gyfyngu i 45 metr.

3. Arwyddion Dim Ysmygu – Dylid dangos Arwyddion Dim Ysmygu ym mhob ardal sydd gyda gwair a gwellt a lle bo'n ymarferol, dylid cymryd rhagofalon yn erbyn mynediad heb awdurdod, yn enwedig gan blant.
4. Gosodiadau trydanol – Dylid glanhau gosodiadau trydanol gan gynnwys lampau, yn rheolaidd fel nad ydyw llwch yn casglu. Dylid gosod a diogelu offer trydanol, gwresogyddion ac ati fel eu bod yn bellter diogel o unrhyw ddeunydd gwely fflamadwy.
5. Offer Diffodd Tân
 - a. Diffoddwyr Tân Cludadwy – Mae'r canlynol yn cael eu hargymell ar y lleiaf:
 - Mae adeiladau nad ydynt yn fwy na 200 metr sgwâr mewn arwynebedd yn gofyn am o leiaf 2x9 litr o ddiffoddwyr dŵr, i adeiladau dros 200 metr sgwâr mae angen diffoddwr tân ychwanegol am bob 200 metr sgwâr ychwanegol neu ran ohono.
 - Rhaid i ddiffoddwyr tân cludadwy ateb gofynion BS EN 3 a chael eu gosod a'u cynnal yn unol â'r argymhellion a roddir yn BS 5306.
 - Yn dibynnu ar ganlyniad eich asesiad risg tân, gallai fod yn bosibl lleihau hyn i un diffoddwr mewn eiddo bach iawn, gyda gofod llawr sy'n llai na 90m².
 - **Ni ddylid** defnyddio diffoddwyr tân sy'n cynhyrchu sŵn uchel, e.e. CO₂, neu gymylau mawr o bowdr sych, yn agos at anifeiliaid.
 - b. Peipiau Dŵr – Gellir darparu peipiau dŵr fel dull opsiwn gwahanol i ddiffoddwyr tân cludadwy. Dylid cael un beipen ar gyfer bob 800 metr sgwâr o arwynebedd neu ran ohono ar y lleiaf. Fe ddylai gydymffurfio â BS 5306: Rhan 1. Mae peipiau golchi yn dderbyniol os oes llif rheolaidd o ddŵr sy'n gallu cynhyrchu ffrwd dŵr o 5 metr ar y lleiaf. Ni ddylai peipiau dŵr fod yn fwy na 45m o hyd a dylid eu lleoli fel y gellir mynd â'r chwistrell o fewn i 6m o bob rhan o'r eiddo sydd wedi'i ddiogelu.
6. Rhybuddion Tân – Dylai pob aelod o staff yn y sefydliad fod yn gyfarwydd gyda pha gamau gweithredu y dylid eu cymryd mewn achos tân. Rhaid darparu rhybudd ysgrifenedig ac amlwg yn dynodi'r camau i'w cymryd mewn achos tân a lleoliad y ffôn agosaf. Gall y rhybudd hwn gynnwys y canlynol:

“Wrth ddarganfod tân, sicrhewch fod yr adeilad yn cael ei wagio.

Ffoniwch y Frigâd Dân {mae'r ffôn agosaf yn

Ceisiwch ddiffodd y tân drwy ddefnyddio'r offer diffodd tân a ddarperir, os yw hi'n ddiogel i wneud hynny ac ati"

7. Cyfeirnod Map O/S – Dylid cael Cyfeirnod Map Arolwg Ordnans ar gyfer yr eiddo a'i arddangos gyda'r Rhybudd Tân a ddarperir.

Mae'r Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005 yn gofyn bod yr holl ragofalon tân hanfodol yn cael eu rhoi ar waith i ddiogelu unigolion perthnasol rhag ofn y bydd tân yn yr eiddo ac o'i gwmpas, y mae'r ddeddfwriaeth yn gymwys iddo.

Mae'r cyfrifoldeb am gydymffurfio â'r gorchymyn gyda'r 'unigolyn cyfrifol'. Mewn gweithle, y cyflogwr yw hwn ac unrhyw unigolyn arall a all fod â rheolaeth o unrhyw ran o'r eiddo, e.e. y deiliad neu'r perchennog. Mewn unrhyw eiddo arall yr unigolyn/unigolion mewn rheolaeth o'r eiddo fydd yn gyfrifol.

Rhaid i'r unigolyn cyfrifol:

Gynnal Aseiad Risg Tân a rhaid cofnodi'r canfyddiadau arwyddocaol os oes pump neu fwy o unigolion yn cael eu cyflogi, os yw'r eiddo wedi'i drwyddedu neu os yw hysbysiad newidiadau ar waith.

I'ch cynorthwyo chi ymhellach, mae'r Fire Safety Guide to Animal Premises and Stables (ISBN: 978 1 85112 884 6) ar gael o'r Stationary Office neu drwy wefan yr Adran Gymunedau a Llywodraeth Leol (www.communities.gov.uk).

C. IECHYD A DIOGELWCH

Mae Deddf Iechyd a Diogelwch yn gymwys i bob busnes, waeth bynnag pa mor fychan ydyw. Fel cyflogwr neu unigolyn hunan gyflogedig, rydych yn gyfrifol am iechyd a diogelwch yn eich busnes. Mae angen i chi gymryd y camau cywir i leihau'r risgiau o beryglon gweithle a darparu amgylchedd gwaith diogel.

Gweler y canllaw o'r enw "Health and safety made simple". Mae'r canllaw hwn yn gwneud bywyd yn haws i chi drwy ddarparu'r wybodaeth sylfaenol ynglŷn â beth rydych angen ei wneud mewn un lle. Bydd yn eich helpu i roi cychwyn arni wrth reoli iechyd a diogelwch yn eich busnes.

Efallai y bydd angen i chi wneud rhai pethau ychwanegol gydag ambell i weithgaredd i sicrhau eich bod yn cydymffurfio â'r gyfraith. Gellir cael canllawiau pellach ar bynciau penodol fel rheoli asbestos, atal salwch ar ôl cysylltu ag anifail ac ati, a modelau asesiadau risg ar gael ar-lein ar www.hse.gov.uk. Gallwch hefyd gysylltu â'r Tîm Iechyd a Diogelwch yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ar 01492 575283 a gofynnwch am y swyddog dyletswydd neu anfonwch e-bost atom ar gwasanaethau.rheoleiddio@conwy.gov.uk

Gellir llwytho'r daflen "Health and Safety made simple" i lawr drwy ddilyn y ddolen gyswllt ganlynol:
<http://www.hse.gov.uk/pubns/indg449.pdf>